## Atodiad A

# Trosolwg economaidd-gymdeithasol yng Nghymru

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Gyllid Twf Lleol y DU yng Nghymru

Hydref 2025

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ **3**
**Cyd-destun Economaidd Cymru** ........ **4**
Allbwn, cynhyrchiant a lles economaidd ........ 4
Trosolwg o’r farchnad lafur ........ 6
Enillion a Chwyddiant ........ 11
Strwythur busnes/diwydiant ........ 13
**Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol** ........ **14**
Beth yw cynhyrchiant a pham mae’n bwysig? ........ 14
Tueddiadau yng nghynhyrchiant y DU a Chymru ........ 15
Ffactorau sy'n sbarduno perfformiad cynhyrchiant ........ 17
**Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau** ........ **25**
Anweithgarwch economaidd ........ 25
Sgiliau ........ 26
Mesur Anghydraddoldeb a Datblygiadau Diweddar ........ 27
**Seilwaith gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni** ........ **32**
Ymrwymiadau i'r hinsawdd ac allyriadau ar draws yr economi ........ 32
Sectorau ........ 34
Seilwaith lleol yn gyrru economïau rhanbarthol ........ 39
Cymunedau mwy cysylltiedig ........ 41
Teithio Llesol ........ 45
Iechyd a Lles ........ 47

# Cyflwyniad

1. Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol hwn yn rhoi trosolwg byr o ddata ac ymchwil sy'n berthnasol i'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi sy'n cael sylw yn ein dogfen ymgynghori ar gyllid twf lleol y DU yng Nghymru. Bwriedir iddo roi gwybodaeth am ffactorau a thueddiadau sy’n bwysig i economi Cymru (ac i economi’r DU y mae wedi’i hintegreiddio'n ddwfn â hi), yn ogystal â rhoi sylfaen strategol ar gyfer gwariant twf lleol y DU yng Nghymru. Bydd dadansoddiad economaidd-gymdeithasol manylach yn cael ei gyhoeddi yn 2026 ochr yn ochr â'n Cynllun Buddsoddi Twf Lleol y DU yng Nghymru.

2. Y pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yn y ddogfen ymgynghori yw:

   - Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol
   - Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau
   - Seilwaith gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni
   - Seilwaith lleol yn gyrru economïau rhanbarthol Cyn rhoi trosolwg o’r dystiolaeth sy'n berthnasol i'r meysydd blaenoriaeth arfaethedig ar gyfer buddsoddi, rhoddir crynodeb o'r prif fetrigau economaidd i helpu i ddeall cyd-destun economaidd presennol Cymru yn well.

# Cyd-destun Economaidd Cymru

## Allbwn, cynhyrchiant a lles economaidd

*Cynnyrch Domestig Gros*

3. Mae allbwn economaidd fel y caiff ei fesurir gan **gynnyrch domestig gros** ymysg y metrigau sydd â'r budd mwyaf i'r cyhoedd o ystyried ei fod yn cael ei ddefnyddio fel dangosydd o berfformiad economaidd cenedlaethol. Mae cynnyrch domestig gros yn cyfeirio at gyfanswm gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau terfynol sy'n cael eu cynhyrchu o fewn ffiniau ardal dros gyfnod penodol.

4. Yn 2023, roedd cynnyrch domestig gros Cymru yn £92.8 biliwn, sy'n cyfateb i 3.4% o gyfanswm cynnyrch domestig gros y DU (£2,702 biliwn). Wrth gymharu â phoblogaeth Cymru yn 2023 sef 3.2 miliwn, roedd cynnyrch domestig gros y pen yn £29k.[1] Roedd hyn 26% yn is na'r un ffigur ar gyfer y DU (£39k y pen).

*Gwerth Ychwanegol Gros*


5. Er mai cynnyrch domestig gros yw'r metrig perfformiad economaidd sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf, fel rheol mae **gwerth ychwanegol gros** yn cael ei ffafrio wrth geisio mesur allbwn *cynhyrchiol* yr economi.[2] Er enghraifft, mae gwerth ychwanegol gros hefyd yn cael ei ddefnyddio'n fwy cyffredin wrth geisio mesur cynhyrchiant mewn economi. Mae hyn yn cael ei drafod yn fanylach yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

6. Yn 2023,roedd gwerth ychwanegol gros Cymru yn £81.5 biliwn, gyda 72.7% wedi'i gynhyrchu gan y sector gwasanaethau (£59.2 biliwn), 21.0% wedi'i gynhyrchu gan y sector cynhyrchu (£17.1 biliwn), a 6.4% wedi'i gynhyrchu gan y sector adeiladu (£5.2 biliwn).[3] Roedd gwerth ychwanegol gros Cymru y pen yn 2023 yn £25,742, sy'n cyfateb i 72.2% o ffigur y DU (£35,661).[4] Er mai ffigur gwerth ychwanegol gros y pen Cymru yw'r ail isaf o 12 gwlad a rhanbarth Lloegr y DU, fel mae **Ffigur 1** yn ei ddangos, yn gyffredinol mae gwerth ychwanegol gros y pen Cymru wedi dilyn yr un patrwm yn fras â gweddill y DU (ar ôl eithrio Llundain) dros y ddau ddegawd diwethaf o ddata sydd ar gael.

[1] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Gweithgarwch economaidd rhanbarthol yn ôl cynnyrch domestig gros, DU: 1998 i 2023
[2] Mae gwerth ychwanegol gros yn cynrychioli allbwn llai treuliant canolraddol ac, yn wahanol i gynnyrch domestig gros, nid yw'n ystyried trethi net (ychwanegu trethi a negyddu cymorthdaliadau).
[3] StatsCymru (2025). Gwerth Ychwanegol Gros yng Nghymru yn ôl diwydiant. [Cyrchwyd y data 13 Awst 2025]
[4] StatsCymru (2025). Gwerth Ychwanegol Gros (£ y pen) yn ôl ardal a blwyddyn. [Cyrchwyd y data 13 Awst 2025]

**Ffigur 1: Gwerth ychwanegol gros y pen**

Mynegai: 2003 = 100




*Nodiadau: 1 - ar sail y prisiau sylfaenol cyfredol (heb eu haddasu ar gyfer chwyddiant) wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio dull cytbwys 2: cyfartaledd y DU ar ôl tynnu Llundain a Chymru allan; * data dros dro yw data 2023*

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol*


## *Incwm Gwario Gros Aelwydydd*

7. Ni ellir defnyddio cynnyrch domestig gros na gwerth ychwanegol gros y pen yn unig fel dangosydd ar gyfer lles economaidd trigolion mewn rhanbarth penodol yn y DU, oherwydd na fydd incwm a gynhyrchir mewn un rhanbarth o reidrwydd yn cael ei gadw yn yr un rhanbarth. Mae **incwm gwario gros aelwydydd** yn rhoi cipolwg defnyddiol o les materol y sector aelwydydd, gan ei fod yn cyfrifo faint o arian sydd gan y sector hwn i'w wario ar ôl ystyried mesurau dosbarthiad incwm (yn fwyaf penodol y system dreth a budd-daliadau).

8. Roedd incwm gwario gros aelwydydd y pen Cymru yn £18,652 yn 2022, 18.2% yn is na'r ffigur ar gyfer y DU (£22,789).[5] Ers 1997, mae incwm gwario gros aelwydydd Cymru wedi gwyro'n raddol oddi wrth ffigur y DU (mewn termau absoliwt a chymharol) - gweler **Ffigur 2**. Wrth gymharu â gwledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr, nid dim ond yng Nghymru y gwelir y duedd hon. Yn yr un modd â'r prif ffigurau eraill mae'n dangos bod ffigur y DU yn cael ei godi gan berfformiad Llundain a De-ddwyrain Lloegr dros yr un cyfnod.

[5] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024). Incwm gwario gros aelwydydd rhanbarthol: pob rhanbarth Lefel Diriogaethol Ryngwladol

**Ffigur 2: Incwm gwario gros aelwydydd y pen rhanbarthol, 1997 i 2022**




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; * data dros dro yw data 2022*

## Trosolwg o'r farchnad lafur


*Cyfranogiad yn y farchnad lafur (cyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch)*

9. Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, roedd **cyfradd cyflogaeth** pobl 16 i 64 oed yn 73.4% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025; roedd hyn 2.0 pwynt canran yn is na'r un ffigur ar gyfer y DU a oedd yn 75.4%.[6] Mae'r newidiadau tymor hir yn y gyfradd cyflogaeth ymysg y datblygiadau economaidd mwyaf cadarnhaol yng Nghymru dros y degawdau diwethaf, lle mae'r gyfradd gyflogaeth wedi bod yn nesáu at ffigur y DU (gweler **Ffigur 3**). Roedd y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru yn uwch i ddynion (76.2%) na menywod (70.5%) dros y cyfnod diweddaraf o ddata, er bod y bwlch hwn hefyd yn llai na'r hyn a welwyd ddau ddegawd yn ôl.

[6] Llywodraeth Cymru (2025). Ystadegau'r Farchnad Lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): mis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025

**Ffigur 3: Cyfradd cyflogaeth yng Nghymru, 2004 i 2025**

Cyfran y rhai 16 i 64 oed




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)*


10. Roedd **cyfradd diweithdra** y rhai 16 oed a hŷn yng Nghymru dros y cyfnod diweddaraf (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025) yn 3.5%, sydd tua 0.3 pwynt canran yn is na'r un ffigur ar gyfer y DU (3.8%).

11. Y **gyfradd anweithgarwch economaidd** sy'n egluro'r gwahaniaeth mewn cyfraddau cyflogaeth rhwng Cymru a'r DU i raddau helaeth. [7] Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, roedd cyfradd anweithgarwch economaidd y rhai 16 i 64 oed yn 23.9% yng Nghymru, tua 2.3 pwynt canran yn uwch na ffigur y DU (21.6%). Wrth edrych ar draws rhanbarthau economaidd Cymru, roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd uchaf yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru (25.3%) ac isaf yng Ngogledd Cymru (20.9%) – gweler **Ffigur 4**.

[7] Pobl economaidd anweithgar yw'r rhai heb swydd nad ydynt wedi chwilio am waith yn ystod y pedair wythnos diwethaf, a/neu nad ydynt ar gael i ddechrau gweithio yn ystod y pythefnos nesaf.

**Ffigur 4: Cyfradd anweithgarwch economaidd rhanbarthau economaidd Cymru**

Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2009 i fis Mawrth 2025




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)*

12. Yn yr un modd â'r DU, mae gwahaniaethau amlwg yn y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn ôl rhyw. Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd ymysg menywod 16-64 oed yn 27.2%; roedd yr un ffigur i ddynion yn 20.5%, tua 6.7 pwynt canran yn is.[8] Y prif resymau a roddodd dynion a menywod am anweithgarwch economaidd oedd salwch tymor hir (36.1% o'r holl ddynion economaidd anweithgar a 31.5% o'r menywod economaidd anweithgar).

13. Roedd cyfradd cyflogaeth ieuenctid (y rhai 16-24 oed) yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 yn 52.5%, 1.6 pwynt canran yn uwch na ffigur y DU sef 50.9%.

### *Cyflogaeth yn ôl sector*


14. Mae **Ffigur 5** yn dangos dosbarthiad cyflogaeth Cymru fesul sector, gan gymharu 2025 â 2015. Yn yr un modd â'r tueddiadau sydd i'w gweld mewn llawer o wledydd datblygedig, mae cyfran y gyflogaeth mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau wedi cynyddu dros y cyfnod o ddeng mlynedd dan sylw. Y sector *Bancio, Cyllid ac Yswiriant* welodd y cynnydd mwyaf yn ei gyfran o gyflogaeth gyffredinol yng Nghymru, gan godi o 11.7% i 15.8% o gyflogaeth (cynnydd o 4.1 pwynt canran). Fel sydd wedi digwydd yn y DU, y sector lle gwelwyd y cwymp mwyaf yn ei gyfran o gyflogaeth gyffredinol yw *Dosbarthu,*

[8] StatsCymru (2025). [Cyfraddau anweithgarwch economaidd (gan gynnwys myfyrwyr) yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn.]

*Gwestai, a Bwytai* lle'r oedd cyfran y sector o gyflogaeth gyffredinol wedi disgyn o 19.1% i 16.1% (gostyngiad o 3.0 pwynt canran).

**Ffigur 5: Cyflogaeth fesul sector yng Nghymru**


Fel cyfran o'r holl gyflogaeth (16 i 64 oed)




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)*

15. Mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr llawer mwy amlwg yng Nghymru nag yn y DU drwyddi draw. Fel sy'n cael ei ddangos yn **Ffigur 6**, mae cyfran y bobl mewn cyflogaeth sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus wedi bod yn gyson uwch yng Nghymru na'r DU drwyddi draw dros y ddau ddegawd diwethaf. Yn 2025, roedd 30.5% o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru yn gweithio yn y sector cyhoeddus, roedd hyn 6.9 pwynt canran yn uwch na'r un ffigur ar gyfer y DU (23.6%).

**Ffigur 6: Pawb a gyflogir yn y sector cyhoeddus fel cyfran o'r holl gyflogaeth**





*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)*

### *Cyrhaeddiad addysgol y gweithlu*

16. Yn 2024, lefel cymhwyster uchaf bron i hanner (44.0%) y rhai rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru oedd Lefel 4 neu uwch y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig, hy lefel addysg uwch, sy'n cyfateb i o leiaf radd sylfaen neu uwch; mae'r ffigur hwn 3.1 pwynt canran yn is na'r un ffigur ar gyfer y DU (47.1%). Fel sy'n cael ei ddangos yn **Ffigur 7**, ceir 'cynffon hir' yn nosbarthiad cyrhaeddiad addysgol, gyda lefel cymhwyster uchaf y mwyafrif o weithlu Cymru (52.4%) o dan Lefel 4 y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig; ffigur y DU yw 48.6%.

**Ffigur 7: Lefel cymhwyster uchaf pobl 16-64 oed, 2024**




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)*


17. Wrth gymharu cyrhaeddiad addysgol yn ôl rhyw, lefel addysgol uchaf 46.8% o fenywod oedran gweithio Cymru yw Lefel 4 neu uwch y Fframwaith

Cymwysterau Rheoleiddiedig, 5.6 pwynt canran yn uwch na'r un ffigur ar gyfer dynion, sef 41.2%.

18. Yn unol â thueddiadau'r DU, mae newid yn parhau yng nghyfran gweithlu Cymru a gyflogir sy'n cael eu categoreiddio fel rhai medrus iawn.[9] Yn 2024 roedd 48.2% o weithlu Cymru yn gweithio mewn galwedigaethau medrus iawn, roedd hyn 13.1 pwynt canran yn uwch na 2004 (pan roedd yn 35.1%) – gweler **Ffigur 8** i gael rhagor o fanylion. Mae'r ffigur hwn yn dal yn is na ffigur y DU drwyddi draw, lle mae 52.6% o'r gweithlu mewn galwedigaethau medrus iawn (gwahaniaeth o 4.3 pwynt canran).[10]

**Ffigur 8: Cyflogaeth yn ôl lefel sgiliau galwedigaethol yng Nghymru a'r DU**

Cyfran o'r holl gyflogaeth




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)*

## Enillion a Chwyddiant

19. Roedd enillion wythnosol gros cyfartalog yng Nghymru yn £674.50 yn 2024, sy'n is na chyfartaledd y DU sef £728.30. Mae hyn wedi bod yn wir yn hanesyddol hefyd. Fodd bynnag, mae twf mewn enillion wythnosol gros cyfartalog wedi tyfu'n gyflymach yng Nghymru na chyfartaledd y DU dros y blynyddoedd diwethaf. Tyfodd 41% yng Nghymru rhwng 2011 a 2023, o'i gymharu â 38% yn y DU drwyddi draw.

[9] Mae lefelau sgiliau galwedigaethol yn cael eu diffinio drwy ddefnyddio codau SOC2010 (dosbarthiad galwedigaethol safonol)
sy'n defnyddio teitlau swyddi fel dangosydd o'r lefel sgiliau sydd ei hangen i wneud swyddi, ac mae'n un o'r dangosyddion gorau
sydd ar gael i gyfrifo proffil sgiliau'r galw yn y farchnad lafur. Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

[10] Ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

20. Roedd y twf hwn wedi cael ei rannu'n weddol gyfartal rhwng y cyfnodau cyn (2011-2019) ac ar ôl (2019-2023) y pandemig.

21. Fodd bynnag, nid yw twf nominal mewn cyflog yn ystyried effeithiau chwyddiant ar bŵer prynu. Mae chwyddiant wedi bod yn uchel dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod y gyfradd wedi disgyn erbyn hyn, mae'n dal yn uwch na tharged Banc Lloegr o 2% a disgwylir iddi aros yno am gryn amser. Canlyniad hyn i gyd yw bod prisiau wedi setlo ar lefelau uwch – gyda rhai'n anghymesur o uchel – gan effeithio ar aelwydydd tlotach, yn ogystal ag angori'r disgwyliadau am chwyddiant i'r dyfodol.


22. Mae hyn wedi golygu bod twf 'real' mewn cyflog rheolaidd (sy'n ystyried chwyddiant) yn y DU wedi bod yn negatif rhwng y cyfnodau rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021 a rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023. Fodd bynnag, mae cyflog rheolaidd real wedi bod yn bositif ers hynny.

*Hanfodion Dyddiol*

23. Dros y blynyddoedd diwethaf mae chwyddiant wedi cael yr effaith fwyaf ar nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu hystyried yn 'hanfodion' fel bwyd ac ynni. Mae hyn yn gallu cael effaith anghymesur ar aelwydydd incwm is, gan eu bod yn tueddu i wario cyfran uwch o'u hincwm ar yr hanfodion hyn.

**Ffigur 9: Twf cydrannau Mynegai Prisiau Defnyddwyr y DU**

Twf cronnus mewn prisiau ers mis Medi 2021, yn ôl categori




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

24. Yn ôl mesur chwyddiant y mynegai prisiau defnyddwyr, mae lefelau prisiau wedi codi 23.7% ers mis Medi 2021 – o'i gymharu â 7.9% petai chwyddiant wedi codi yn unol â tharged Banc Lloegr sef 2%. Roedd cyfradd y mynegai


prisiau defnyddwyr yn uwch na 10% yn y DU rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mawrth 2023.

25. Mae lefel prisiau bwyd wedi cynyddu 36.2% ers mis Medi 2021 ac mae trydan wedi cynyddu 55.1% dros yr un cyfnod yn y DU.

## Strwythur busnes/diwydiant

26. Fel sy'n cael ei ddangos yn **Ffigur 10**, yn 2023 roedd busnesau bach a chanolig[11] yng Nghymru yn cynrychioli 99.3% o fentrau, 62.3% o gyflogaeth, a 43.4% o drosiant. Mae busnesau bach a chanolig yn cynrychioli'r rhan fwyaf o fentrau a chyflogaeth yn y DU oherwydd bod llawer ohonynt ac maent yn aml wedi'u gwreiddio'n lleol, ond fel arfer mae eu trosiant yn is na chwmnïau mawr oherwydd graddfa lai eu gweithrediadau, ymchwil cyfyngedig i'r farchnad a chyfyngiadau o ran adnoddau.

**Ffigur 10: Cyfran y mentrau, cyflogaeth a throsiant yng Nghymru yn ôl Maint y Busnes* (2023)**




*Sylwch: * Mae maint busnes yn cyfeirio at nifer y bobl a gyflogir*
*Ffynhonnell: StatsCymru*

[11] Mae busnesau bach a chanolig yn cynnwys microfusnesau sy'n cyflogi 0 i 9 o bobl.

# Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol


## Beth yw cynhyrchiant a pham mae'n bwysig?

27. Mae asesu cynhyrchiant economaidd yn golygu mesur pa mor effeithlon mae mewnbynnau'n cael eu defnyddio wrth gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. Fel arfer, mae'n cael ei fesur fel faint o allbwn sy'n cael ei gynhyrchu fesul uned o fewnbwn llafur – er enghraifft, gwerth ychwanegol gros fesul awr sy'n cael ei weithio neu fesul gweithiwr. Yn rhannol, mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio oherwydd ei bod hi'n hawdd mesur llafur fel mewnbwn cynhyrchu.

28. Mae gwneud enillion cynhyrchiant wedi bod yn sbardun allweddol i wella safonau byw yn hanesyddol, gan fod gwelliannau o'r fath yn caniatáu ar gyfer mwy o allbwn mewn diwydiannau sydd eisoes yn bodoli yn ogystal â rhyddhau adnoddau y gall diwydiannau eraill (a allai fod yn newydd ac yn dod i'r amlwg) eu defnyddio. Mae'r patrwm agos rhwng cynhyrchiant ac enillion canolrifol yr awr yn awgrymu bod y berthynas hon yn dal yn bwysig – gweler **Ffigur 11**.

**Ffigur 11: Allbwn fesul gweithiwr ac enillion canolrifol fesul awr**

Mynegai: 1997 = 100




***Sylwch:*** *Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.*
***Ffynhonnell:*** *Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o adroddiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ("Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion" ac "Amcangyfrif Sydyn o Gynhyrchiant")*

29. Yn groes i'r hyn a welwyd fel arfer yn y blynyddoedd cyn yr Argyfwng Ariannol Byd-eang, mae ymchwil y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod llawer o dwf economaidd y DU ar ôl yr argyfwng wedi cael ei sbarduno'n fwy gan

gynnydd yn nifer yr oriau a weithir yn yr economi o'i gymharu â chynnydd mewn cynhyrchiant (allbwn fesul awr a weithir).[12]


30. Mae sicrhau enillion cynhyrchiant yn hanfodol i fusnesau sy'n ceisio cyflawni a chynnal cystadleurwydd busnes, oherwydd bydd busnesau mwy cynhyrchiol mewn sefyllfa well i brisio eu cynnyrch yn gystadleuol mewn marchnadoedd lleol/byd-eang a denu gweithwyr sydd â sgiliau uwch gyda chyflogau uwch.

## Tueddiadau yng nghynhyrchiant y DU a Chymru

31. Mae pryderon am berfformiad cynhyrchiant wedi bod yn broblem gynyddol ers argyfwng ariannol byd-eang 2007-09. Mae **Ffigur 12** yn dangos twf cynhyrchiant o un flwyddyn i'r llall rhwng 1998 a 2024. Yn y naw mlynedd cyn yr argyfwng ariannol byd-eang (1998 i 2007) roedd y gyfradd dwf flynyddol gyfartalog oddeutu 2.2%. Ar ôl y siociau negatif mewn allbwn a chynhyrchiant yn gyffredinol yn 2008 a 2009, gostyngodd y gyfradd twf flynyddol gyfartalog yn ystod y deng mlynedd ddilynol i 0.6%, llai nag un rhan o dair o'r hyn a welwyd o'r blaen. Yr hyn sy'n peri mwy fyth o bryder yw bod cyfradd twf cynhyrchiant y DU ers dechrau pandemig COVID-19 wedi bod hyd yn oed yn wannach, gyda'r gyfradd twf flynyddol gyfartalog rhwng 2020 a 2024 yn cyfateb i 0.4%.

**Ffigur 12: Cyfradd twf allbwn y DU fesul awr a weithiwyd, 1998 i 2024**

Cyfradd o un flwyddyn i'r llall (%)




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*


32. Mae **Ffigur 13** yn cymharu perfformiad cymharol Cymru â gweddill y DU ar y ddau brif fesur ar gyfer cynhyrchiant llafur (*gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd a gwerth ychwanegol gros fesul swydd a lenwyd).* Ar y naill fesur a'r llall, mae Cymru ar waelod Gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, gyda gwerth

[12] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Amcangyfrif sydyn o gynhyrchiant a throsolwg, DU: Mis Ionawr i fis Mawrth 2025 a mis Hydref i fis Rhagfyr 2024

ychwanegol gros yr awr a weithiwyd 15.1% yn is na ffigur y DU a gwerth ychwanegol gros fesul swydd a lenwyd 17.7% yn is. Er bod gan y rhan fwyaf o wledydd/rhanbarthau'r DU gynhyrchiant is na'r cyfartaledd – oherwydd perfformiad eithriadol o gryf Llundain a De Ddwyrain Lloegr – mae ceisio gwella perfformiad cynhyrchiant Cymru yn amlwg yn hanfodol o ystyried ei bwysigrwydd ehangach.

**Ffigur 13: Cynhyrchiant llafur ar draws Gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, 2023**

Mesur o'i gymharu â ffigur y DU





***Ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

33. Mae'n bwysig nodi bod perfformiad Cymru gyfan (gan ddefnyddio'r ddau brif fesur o gynhyrchiant llafur) wedi aros yn gymharol sefydlog dros yr 20 mlynedd diwethaf o ddata sydd ar gael, gan adlewyrchu'r heriau tymor hir y mae economi Cymru yn eu hwynebu o ran gwella cynhyrchiant llafur - gweler **Ffigur 14**. Mae'r is-adrannau canlynol yn trafod sut mae dylanwadu ar y perfformiad hwnnw.

**Ffigur 14: Cynhyrchiant llafur Cymru o'i gymharu â'r DU, yn ôl mesur**

Mynegai: DU = 100




***Ffynhonnell:*** *Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

## Ffactorau sy'n sbarduno perfformiad cynhyrchiant

### *Cyfalaf Dynol*

34. Mae'r berthynas rhwng sgiliau a chynhyrchiant llafur wedi hen ennill ei phlwyf mewn theori economaidd, a chredir bod lefelau sgiliau uwch yn gwella effeithlonrwydd ac ansawdd allbwn gweithwyr (drwy alluogi gweithwyr i wneud gwell defnydd o dechnoleg newydd a thechnoleg sydd eisoes yn bodoli, er enghraifft), yn ogystal â meithrin arloesedd a gweithgarwch entrepreneuraidd.


35. Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu bod cyrhaeddiad addysgol wedi parhau i fod yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at gynhyrchiant a thwf cyflogau yn y DU (ac yn wir yng Nghymru) dros y degawdau diwethaf.[13] Mae cymwysterau addysg ffurfiol yn arwyddion pwysig o lefel sgiliau, ond y sgiliau gwaelodol sy'n bwysig i oedolion yw sgiliau sylfaenol fel llythrennedd, rhifedd a datrys problemau. Mae ymchwil gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd gan ddefnyddio data arolwg sgiliau rhyngwladol yn awgrymu cydberthynas gadarnhaol argyhoeddiadol rhwng cynhyrchiant llafur a lefelau sgiliau cyfartalog oedolion yn y sector preifat.[14]

[13] Gavin Conlon, Greta Dohler, Su-Min Lee, a Pietro Patrignani (2023). Skills and UK productivity Estimating the contribution of educational attainment to productivity growth. Ar gyfer yr Adran Addysg (Llywodraeth y DU).

[14] Dan Andrews, Balázs Égert, a Christine de La Maisonneuve (2025). Adult skills and productivity: New evidence from PIAAC 2023. Papur Gwaith y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

**Ffigur 15: Amcanestyniadau galwedigaeth marchnad lafur a thwf sgiliau yng Nghymru**

2020 i 2035




***Ffynhonnell:*** *Llywodraeth y DU (Yr Adran Addysg)*

36. Fel y nodir yn yr adran ar gyd-destun economaidd Cymru yn y trosolwg hwn, mae cyfran y gweithlu sydd â'r lefel uchaf o gyrhaeddiad addysgol sy'n cyfateb i NVQ lefel 4 neu uwch yn is yng Nghymru nag yn y DU, tra bo cyfran y gweithlu sydd heb unrhyw gymwysterau yn uwch. Mae **Ffigur 15** yn dangos amcanestyniadau twf galwedigaethau Cymru yn ôl lefelau sgiliau galwedigaethol rhwng 2020 a 2035. Fel y gwelwyd yn hanes diweddar Cymru (gweler **Ffigur 8**), mae'r amcanestyniadau hyn yn awgrymu mai'r dosbarthiadau galwedigaethol a fydd yn gweld y twf mwyaf fydd y rhai sy'n gysylltiedig â lefelau sgiliau uwch – yn enwedig y rhai sydd mewn *galwedigaethau proffesiynol*.[15] Bydd hi'n hanfodol sicrhau bod gweithlu Cymru yn meddu ar y sgiliau i wireddu'r dyfodol hwn.

## *Buddsoddiad*


37. Yn ogystal â buddsoddi mewn sgiliau ac addysg, bu pryder bod economi'r DU wedi bod yn dioddef o danfuddsoddi cronig parhaus. Dywedir yn aml fod buddsoddi mewn nwyddau cyfalaf a seilwaith yn hanfodol er mwyn tyfu cynhyrchiant a chynyddu capasiti cynhyrchiol yr economi gyfan. Mae **Ffigur 16** yn dangos buddsoddiad economi-gyfan fel cyfran o'r cynnyrch domestig gros

[15] Mae galwedigaethau proffesiynol yn cynnwys yn bennaf y rhai sy'n gweithio mewn proffesiwn yn y sectorau gwyddoniaeth, TG, iechyd, addysgu, cyfreithiol ac eraill.

cenedlaethol ar gyfer gwledydd y G7 er 1997; fel y gwelir, mae'r DU wedi buddsoddi cyfran gyson is o gynnyrch cenedlaethol dros y cyfnod hwn.

**Ffigur 16: Ffurfiant Cyfalaf Sefydlog Gros fel canran o'r cynnyrch domestig gros**

1997 i 2024




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ('Buddsoddiad busnes yn y DU')*

*Cydgrynhoi*

38. Mae manteision cydgrynhoi yn ffynhonnell allweddol i dyfu cynhyrchiant, yn enwedig i gwmnïau yn y sector gwasanaethau. Mae cydgrynhoi yn golygu sut mae gweithgarwch economaidd wedi'i grynhoi'n ddaearyddol ac mae'n cael ei ystyried yn aml yn nhermau dwysedd gwirioneddol (gweithgaredd mewn ardal) neu ddwysedd effeithiol (gweithgarwch o fewn amser teithio penodol mewn ardal).


39. Dywedir yn aml mai'r manteision a ddaw o gydgrynhoi yw'r rhai sy'n deillio o'r canlynol:

- **Rhannu Adnoddau:** gyda busnesau a chwmnïau'n gallu defnyddio cyfleusterau a seilwaith yn well mewn ardal (gan gynyddu enillion cynhyrchiant cyflenwi amwynderau).
- **Cyfateb cwmnïau/cyflogeion:** gyda chwmnïau'n gallu paru'n well â chyflenwyr/prynwyr addas, a gweithwyr yn cael mwy o gyfle i lenwi rolau sy'n defnyddio eu setiau sgiliau yn y ffordd orau.
- **Trosglwyddo gwybodaeth:** lledaenu gwybodaeth yn well a chaffael sgiliau oherwydd mwy o ryngweithio ymysg y gweithlu lleol – o fewn cwmnïau a rhyngddynt.

40. Er bod tystiolaeth wahanol am hyd a lled manteision cydgrynhoi, mae tystiolaeth ryngwladol yn gyffredinol yn ategu bod effeithiau cydgrynhoi o'r fath yn bodoli ac yn cyfrannu at lefelau cynhyrchiant uwch mewn ardaloedd mwy

dwys a/neu sydd â mwy o gysylltedd trafnidiaeth.[16] Gan fod cyfran mor fawr o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd mwy gwledig lle mae dwysedd y boblogaeth yn is (gweler **Ffigur 17**), un ffactor sy'n aml yn cael ei weld fel tramgwydd i'r ardaloedd hyn yw ei bod hi'n anodd iddynt fanteisio ar fudd cydgrynhoi.

**Ffigur 17: Cyfran y boblogaeth mewn aneddiadau sydd â llai na 10,000 o bobl**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2021; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

## *Ymchwil, Arloesi a Datblygu*


41. Gan fod ymchwil ac arloesi yn hanfodol i ddatblygu ac i ledaenu technolegau newydd, mae'n rhesymegol eu bod yn cael eu gweld fel rhan bwysig o wella cynhyrchiant. Mae'r sector busnes yng Nghymru yn parhau i chwarae rhan flaenllaw o ran gwariant ar ymchwil a datblygu (60.1% yn 2022). Mae hyn yn cymharu â 36.8% ar gyfer cyrff Addysg Uwch a 2.8% ar gyfer y Llywodraeth/Cynghorau Ymchwil.[17] Yn y DU, y sector busnes sy'n cynnal y gyfran gymharol uchaf o ymchwil a datblygu ym mhob gwlad a rhanbarth yn Lloegr, ac yn 2023 cafodd ychydig o dan hanner gwariant busnesau'r DU ar ymchwil a datblygu ei wneud gan gwmnïau o dan berchnogaeth dramor.[18]

[16] Daniel Graham a Stephen Gibbons (2019). [Quantifying Wider Economic Impacts of agglomeration for transport appraisal: Existing evidence and future directions]. Economeg Trafnidiaeth.
[17] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024). [Gwariant domestig gros y DU ar ymchwil a datblygu (dynodwyd fel ystadegau swyddogol)]
[18] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024). *Ymchwil a datblygu mentrau busnes, y DU: 2023*. Y DU Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

42. Er nad oes dal dealltwriaeth lawn o'r cysylltiadau rhwng ymchwil a datblygu a chynhyrchiant,[19] mae arloesi (y broses o droi syniadau – o ymchwil, er enghraifft – yn brosesau ac yn gynnyrch) yn angenrheidiol i gwmnïau sydd eisiau mantais gystadleuol. Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod hwn wedi bod yn wendid yng Nghymru yn ddiweddar. Mae **Ffigur 18** yn dangos data arolwg wedi'i bwysoli sy'n awgrymu bod gan gyfran lai o fusnesau Cymru arloesedd gweithredol nag yn y DU. Mae gan fusnes arloesedd gweithredol os yw unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol wedi digwydd dros gyfnod yr arolwg:

- Cyflwyno cynnyrch newydd neu well (nwyddau neu wasanaethau);
- Defnyddio prosesau busnes i gynhyrchu neu i gyflenwi'r holl nwyddau neu wasanaethau mae'r busnes wedi'u cyflwyno, dim ots beth yw eu tarddiad. Efallai fod yr arloesi hyn yn newydd i'r busnes neu'n newydd i'r farchnad;
- Cymryd rhan mewn prosiectau arloesi sydd heb gael eu cwblhau eto neu sydd wedi cael eu rhoi o'r neilltu;

**Ffigur 18: Busnesau sydd ag arloesedd gweithredol, yn ôl blwyddyn**




***Ffynhonnell:*** *Arolwg Arloesedd y DU, StatsCymru*

## *Cymysgedd Sector*

43. O ystyried bod gan rai sectorau o'r economi gynhyrchiant uwch nag eraill (er enghraifft, mae gan *gyllid ac yswiriant* yn y DU gynhyrchiant llafur uwch na *llety a gwasanaethau bwyd*) gallai symudiadau mewn cyflogaeth o sectorau cynhyrchiant isel i uchel gynyddu lefelau cynhyrchiant llafur mewn theori. Fodd bynnag, roedd data cynhyrchiant rhanbarthol diwethaf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ôl diwydiant (a gyhoeddwyd yn 2019) yn awgrymu bod perfformiad cynhyrchiant Cymru yn cael ei lywio fwy gan wahaniaethau cynhyrchiant o fewn

[19] Richard A L Jones (2023). Productivity, Innovation and R&D. Y Sefydliad Cynhyrchiant.

y sector yn hytrach na gwahaniaethau rhwng sectorau. I'r rhan fwyaf o sectorau'r economi, roedd cynhyrchiant yn is yng Nghymru na chyfartaledd y DU (hyd yn oed wrth dynnu Llundain o'r ffigur).

44. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod effaith gwahaniaethau cynhyrchiant rhwng sectorau yn gallu bod yn fwy amlwg wrth edrych ar lefel is o ddaearyddiaeth na gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr.[20] Bydd gan rai awdurdodau lleol gyfansoddiad sectoraidd tra gwahanol gyda chyfran gymharol uchel o gyflogaeth mewn diwydiannau cynhyrchiant isel.


*Demograffeg Busnes*

45. Un peth sy'n esbonio'r ffactorau sy'n cyfrannu at berfformiad cynhyrchiant Cymru yw'r gyfran uwch o gyflogaeth mewn busnesau bach a chanolig yng Nghymru wrth gymharu â'r DU. Mae tystiolaeth yn awgrymu (i'r rhan fwyaf o sectorau economi'r DU) bod perthynas gadarnhaol rhwng maint cwmnïau a chynhyrchiant llafur. Mae cwmnïau mwy yn fwy tebygol o allu defnyddio 'arbedion maint', er enghraifft, gallu taenu costau sefydlog cwmni o'u cymharu â'u hallbwn, neu ganiatáu mwy o arbenigedd gweithwyr (lle gall gweithwyr gael eu cyfateb yn fwy priodol â thasgau y mae eu sgiliau'n addas iddynt). Mae'n werth nodi nad yw'r berthynas hon yn cael ei gweld ym mhob sector o'r economi ac, yn ôl ymchwil y Swyddfa Ystadegau Gwladol, dim ond 30% o'r amrywiad ar draws busnesau a welwyd y gellid rhoi cyfrif amdano oherwydd maint, lleoliad a sector.[21]

46. Yng Nghymru, mae cyflogaeth busnesau bach a chanolig yn gyffredinol uwch mewn ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth is (gweler **Ffigur 19**). Mae esboniadau posibl am hyn yn cynnwys y cymysgedd sectoraidd penodol sy'n fwy cyffredin mewn cymunedau gwledig (er enghraifft, mewn amaethyddiaeth neu dwristiaeth, lle mae cyflogaeth mewn busnesau bach a chanolig fel arfer yn fwy cyffredin) a phresenoldeb cyfyngedig corfforaethau mawr sy'n ceisio elwa o effeithiau cydgrynhoi.

[20] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019). Understanding spatial labour productivity in the UK; R Harris a J Moffat (2021). The geographical dimension of productivity in Great Britain, 2011–18: the sources of the London productivity advantage; ac, A Stansbury ac eraill (2023). Tackling the UK's regional economic inequality: Binding constraints and avenues for policy intervention
[21] Gweler Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). Mesurau cynhyrchiant llafur ar lefel cwmni o'r Arolwg Busnes Blynyddol, y DU: 1998 i 2019

**Ffigur 19: Dwysedd poblogaeth a chyflogaeth mewn busnesau bach a chanolig yn Awdurdodau Lleol Cymru**




*Sylwer: oherwydd gwallau talgrynnu, gallai'r ffigurau busnesau bach a chanolig fod ychydig yn anghywir;*
***Ffynhonnell:** Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o StatsCymru*

### *Masnach*

47. Mae masnach yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o hybu cynhyrchiant. Drwy gymryd rhan mewn masnach agored, mae cwmnïau'n wynebu mwy o gystadleuaeth, sy'n gwneud iddynt arloesi a gwella effeithlonrwydd. Mae marchnadoedd agored hefyd yn rhoi mynediad at sylfaen cwsmeriaid ehangach, gan ganiatáu i gwmnïau elwa o arbedion maint. Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod cwmnïau a oedd yn masnachu'n rhyngwladol rhwng 2011 a 2022 35.4% yn fwy cynhyrchiol na chwmnïau nad oeddent yn gwneud hynny.[22]

48. Mae Cymru yn wlad gymharol fasnach-ddwys gydag allforion nwyddau rhyngwladol yn cyfrif am tua 23% o'r allbwn (cynnyrch domestig gros) yn 2023. Mae hyn yn gyson uwch nag unrhyw wlad a rhanbarth arall yn y DU, ac ymhell uwchlaw'r DU (15%). Er bod hyn wedi dod â chyfleoedd i economi Cymru, mae hefyd wedi arwain at risgiau, gyda Chymru efallai'n fwy agored i siociau economaidd negatif o ganlyniad i newidiadau mewn perthnasoedd masnachu nwyddau na mannau eraill yn y DU. Yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, disgwylir i'r newidiadau ym mherthynas fasnachu'r DU â'r UE – a roddwyd ar waith o 2021 ymlaen – arwain at gwymp o 4% yng nghynhyrchiant y DU nag y

[22] o ran allbwn fesul gweithiwr.

byddai wedi bod fel arall, gyda'r effaith lawn yn cael ei gwireddu dros 15 mlynedd.[23]

49. Mae Cymru yn dal â’i gwreiddiau’n ddwfn yn economi'r DU, fodd bynnag mae rhai gwahaniaethau allweddol o ran cyfansoddiad masnach. Mae cyfansoddiad masnach Cymru yn dal i gael ei ddominyddu gan nwyddau, a oedd yn cyfrif am tua dwy ran o dair (67%) o gyfanswm allforion Cymru yn 2023, o'i gymharu â'r DU lle'r oedd allforio nwyddau'n cyfrif am bron i hanner (46%).

[23] Gweler y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (Mawrth 2024). Rhagolygon economaidd a chyllidol - Mawrth 2024

# Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau

## Anweithgarwch economaidd

50. Fel cafodd ei egluro yn yr adran Trosolwg o'r Farchnad Lafur, mae cyfradd anweithgarwch economaidd Cymru yn uwch na chyfartaledd y DU. Mae materion iechyd tymor hir ar draws y ddemograffeg oedran hefyd yn dylanwadu'n fawr y gwahaniaeth hwn. Fel yr eglurir yn ddiweddarach yn yr adran Iechyd, mae bod ag anabledd yn gallu rhoi unigolion mewn mwy o berygl o fod mewn tlodi incwm cymharol. Felly, mae sut gallwn ni gefnogi pobl i gael gwaith yn fater hollbwysig i bobl Cymru.


51. Mae amcangyfrifon terfynol ar gyfer 2022 yn dangos bod cyfran y bobl ifanc 16-24 oed nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) wedi disgyn o 16.0% yn 2021 i 13.9% yn 2022. Mae amcangyfrifon dros dro yn awgrymu bod y gyfran hon wedi parhau i ddisgyn i 13.6% yn 2023.

52. Ers 2012, mae cyfran y bobl ifanc NEET a oedd yn ddi-waith (sy'n golygu eu bod wrthi'n chwilio am waith) wedi dilyn tuedd ar i lawr. Fodd bynnag, mae'r gyfran sy'n economaidd anweithgar wedi dilyn tuedd ar i fyny rhwng 2017 a 2021, ond mae wedi gostwng ers hynny.

53. Ceir rhywfaint o dystiolaeth mai cyfraddau uwch o afiechyd sydd i gyfrif am y cynnydd mewn cyfraddau anweithgarwch economaidd ledled Cymru. Mae'r duedd hon i'w gweld ymysg pobl iau yn ogystal â phobl hŷn. Mae'n ymddangos bod y duedd hon wedi dechrau cyn y pandemig.

**Ffigur 20: Cyfran y bobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, 2004 i 2023**

Cymru





*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

## Sgiliau

54. Mae cyfran y bobl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru sy'n economaidd weithgar ac sydd â chymwysterau lefel 4+ y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig (cymhwyster sy'n uwch na Safon Uwch neu gyfatebol) wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf o 47% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022 i 50% yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024. Dylai gweithlu mwy addysgedig gyfrannu'n gadarnhaol at gynhyrchiant. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod y gweithlu'n gallu ennill sgiliau a chymwysterau sy'n cyfateb i'r galw am lafur yn y busnesau mwyaf cynhyrchiol.

55. Fodd bynnag, er bod y gyfran sy'n meddu ar gymwysterau lefel 4+ y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig wedi codi, mae'r gyfran sydd heb unrhyw gymwysterau wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd diwethaf sef 5%. Mae bod heb unrhyw gymwysterau yn gysylltiedig â photensial i ennill llai yn ystod eich gyrfa. Gallai hyn gyfrannu at anghydraddoldeb cynyddol rhwng y rhai heb unrhyw gymwysterau a gweddill y gweithlu.

**Ffigur 21: Lefel cymwysterau yr economaidd weithgar yng Nghymru**





*Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth*

56. Mae cyfansoddiad gweithlu Cymru wedi aros yn debyg dros y blynyddoedd diwethaf, ond bu rhai newidiadau nodedig. Mae cyfran y bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru sydd mewn galwedigaethau proffesiynol, proffesiynol cysylltiol a rheolwr/cyfarwyddwr/uwch swyddog wedi cynyddu rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2021 a'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025. Bu cynnydd hefyd mewn galwedigaethau elfennol a galwedigaethau gweinyddol/ysgrifenyddol.

57. Bu gostyngiad mewn galwedigaethau â chrefftau medrus, galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid, gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau, a galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill.

58. Gallai hyn awgrymu bod cyflogaeth yng Nghymru yn symud at fwy o alwedigaethau sy'n talu'n dda ar gyfartaledd, ac at swyddi sydd naill ai'n gofyn am lefelau sgiliau/cymwysterau uwch, neu alwedigaethau sy'n cefnogi'r swyddi hynny.

**Ffigur 22: Cyfran o'r holl gyflogaeth yn ôl galwedigaeth yng Nghymru, y blynyddoedd a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2025**




*Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth*

## Mesur Anghydraddoldeb a Datblygiadau Diweddar

### *Y cysylltiad rhwng anghydraddoldeb a thwf economaidd*

59. Mae anghydraddoldeb yn cyfyngu ar dwf economaidd drwy leihau cyfalaf dynol posibl ac mae'n gallu arwain at gymdeithas sydd â lefelau is o addysg, ac iechyd gwaeth. Os nad yw dinasyddion yn gallu cael mynediad at neu gael lefelau uwch o addysg ac iechyd (boed hynny o'r gofal maen nhw'n ei gael neu eu gallu i gadw'n iach o ystyried eu ffordd o fyw) yna maen nhw, fel gweithwyr, yn llai cynhyrchiol ac yn cael llai o brofiad. Gall hyn fod oherwydd eu bod yn llai medrus, a/neu oherwydd eu bod yn y gwaith llai (oherwydd mwy o absenoldeb a/neu ymddeoliad cynharach nag fel arall).

60. Mae gweithlu iachach, mwy addysgedig yn fwy cynhyrchiol, ac yn un sy'n gallu gweithio am fwy o amser. Mae mwy o allbynnau'n caniatáu ar gyfer cyflogau uwch a safonau byw uwch, ac mae gweithlu mwy gweithredol yn lleihau'r galw ar y wladwriaeth am gymorth sy'n gysylltiedig â lles, sy'n golygu bod modd cyfeirio adnoddau at bolisïau mwy cynhyrchiol ac sy'n ysgogi twf.

61. Mae incwm yn benderfynydd pwysig o ran addysg ac iechyd, ac felly mae lleihau anghydraddoldebau o'r fath yn allweddol i'n gweithlu ac i'n ffyniant yn y dyfodol.

62. Ar y cyfan, nid yw anghydraddoldeb incwm cyfanredol yn y DU wedi newid llawer ers canol y 1990au; fodd bynnag, mae hyn yn anwybyddu'r newidiadau a welwyd mewn is-grwpiau o'r boblogaeth – boed hynny yn ôl degradd incwm, deiliadaeth tai neu nodweddion personol.


*Cyfernod Gini*

63. Mae Cyfernod Gini wedi aros yn sefydlog ers y 1990au. Ers 1990, mae ei werth – cyn costau tai – wedi aros rhwng 0.332 a 0.356. (Nodyn atgoffa: ar ei raddfa o 0-1, mae gwerthoedd sy'n nes at sero yn cynrychioli lefelau is o anghydraddoldeb). Fodd bynnag, roedd hyn yn dilyn cyfnod o dwf parhaus lle tyfodd y cyfernod 0.082 pwynt yn y ddau ddegawd cyn hynny, ac mae ei lefel uwch newydd wedi parhau byth ers hynny[24]. Mae'r gwerth diweddaraf (0.348 ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 2023/24) yn uwch na chyfartaledd EU27 aelod-wladwriaethau Ewrop (0.294 yn 2024) sy'n adlewyrchu tueddiadau hanesyddol.

64. Mae'r siart hefyd yn dangos sut mae tai wedi dod yn ffynhonnell allweddol o anghydraddoldeb incwm. Yn debyg i'r mesur cyn costau tai, roedd y mesur ar ôl costau tai hefyd wedi codi drwy'r 1980au ond yna parhaodd i dyfu'n gyflymach na'r mesur cyn costau tai, gan greu gwahaniaeth mwy rhwng y ddau fesur sydd wedi parhau hyd heddiw (gydag ambell gyfnod o gyfraddau'n disgyn, gan gynnwys ers 2016-17 er bod hynny o lefel gymharol uwch). Mae'r mesur ar ôl costau tai wedi bod o leiaf 0.040 pwynt yn uwch ers yr Argyfwng Ariannol Byd-eang (2008-09).

[24] Hyd at 1994/95,roedd Cyfernod Gini yn cael ei fesur ar sail Prydain Fawr – nid y DU

**Ffigur 23: Cyfernod Gini y DU**





*Ffynhonnell: Arolwg o Adnoddau Teulu*

*Cymarebau Incwm*

65. Yn yr un modd â Chyfernod Gini, cymharol ychydig o newid sydd wedi bod yn y cymarebau incwm ers y 1990au. Cyn costau tai: ar gyfartaledd mae enillwyr incwm uchel wedi ennill pedair gwaith yn fwy na phobl ar incwm isel, a thua dwywaith yn fwy na phobl ar incwm canolig. Roedd enillwyr incwm canolig yn ennill dwywaith yn fwy na'r rhai ar incwm isel.


66. Serch hynny, mae tystiolaeth bod costau tai yn cynyddu anghydraddoldebau. Mae'r bylchau rhwng y cymarebau ar ôl costau tai a chyn costau tai i enillwyr incwm uchel ac isel wedi cynyddu o lefel isel o 0.71 yn 2002/03, i fyny i 1.29 yn 2018/19, cyn disgyn yn ôl rhywfaint i 1.10 yn 2023/24 – gyda'r holl gynnydd bron oherwydd cynnydd yn y gymhareb ar ôl costau tai. Yn yr un modd, i enillwyr incwm canolig ac incwm isel, mae'r un bwlch (ac ar gyfer yr un cyfnodau) wedi cynyddu o 0.29 i 0.53 ac mae bellach yn 0.44. Mae'r cymarebau hyn wedi cynnal eu safleoedd cymharol ar draws y cyfnod data (hy mae'r gymhareb rhwng gwerthoedd uchel ac isel bob amser wedi bod yn fwy na rhwng canolig ac isel, sydd yn ei dro yn fwy na rhwng uchel a chanolig), ond mae'r gwahaniaeth bellach yn fwy amlwg.

**Ffigur 24: Cymhareb P90/P10 (incwm uchel o'i gymharu ag incwm isel)**
**Y Deyrnas Unedig**




*Ffynhonnell: Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog*


**Ffigur 25: Cymhareb P50/P10 (incwm canolig o'i gymharu ag incwm isel)**
Y Deyrnas Unedig




*Ffynhonnell: Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog*

**Ffigur 26: Cymhareb P90/P50 (incwm uchel o'i gymharu ag incwm canolig)**

Y Deyrnas Unedig




*Ffynhonnell: Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog*

## Seilwaith gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni

67. Bydd buddsoddi mewn technolegau a gwelliannau gwyrdd yn hanfodol er mwyn i Gymru allu cyrraedd ei thargedau hinsawdd deddfwriaethol. Mae datgarboneiddio gridiau ynni, gwella systemau trafnidiaeth gyhoeddus, a gwella effeithlonrwydd ynni'r stoc adeiladau bresennol a newydd i gyd yn elfennau hanfodol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr tiriogaethol a chefnogi'r newid i economi carbon isel. Rhaid i fuddsoddiadau mewn seilwaith hefyd allu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd, gan sicrhau bod asedau ffisegol yn gallu gwrthsefyll tywydd eithafol sy’n digwydd yn amlach a phatrymau hinsawdd sy'n newid.

68. Mae mesurau effeithlonrwydd ynni yn strategaeth gost-effeithiol i leihau allyriadau ar unwaith ac yn y tymor hir. Bydd defnyddio technolegau effeithlon iawn – sy’n amrywio o bympiau gwres a mesuryddion clyfar i awtomateiddio diwydiannol a rheoli’r galw am ynni – yn gallu datgloi llawer o arbedion ynni a lleihau costau gweithredol.

69. Mae'r is-adrannau canlynol yn ceisio rhoi rhywfaint o gyd-destun am yr angen am ymyrraeth yn y maes hwn.

### Ymrwymiadau i'r hinsawdd ac allyriadau ar draws yr economi

70. Yn 2023, roedd Cymru wedi allyrru nwyon tŷ gwydr sy'n cyfateb i amcangyfrif o 34.9 megatunnell o garbon deuocsid gros (MtCO2e), [25] neu 11.0 tunnell y pen – a oedd wedi disgyn 43.2% o 19.1 tunnell y pen yn 1999.

71. Efallai nad yw’n syndod o ystyried hanes diwydiannol dwfn Cymru, bod allyriadau’r pen yng Nghymru wedi bod yn uwch na rhai’r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a’r UE ers tro byd, er bod y bwlch wedi lleihau’n sylweddol – yn enwedig ers 2016. Yn 1999, roedd allyriadau’r pen yng Nghymru o 19.1 tunnell yn uwch o lawer na rhai y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (11.0 tunnell) a’r UE (9.1 tunnell).[26] Erbyn 2011, ffigur Cymru oedd 14.4 tunnell y pen, o'i gymharu â 10.0 i’r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a 7.5 i’r UE. Erbyn 2023, roedd allyriadau Cymru wedi gostwng i 10.8 tunnell y pen, gan ddod yn nes at 8.0 tunnell y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a 5.6 tunnell yr UE. Yn gyffredinol, roedd gostyngiad y pen Cymru

[25] Mae allyriadau gros yn golygu cyfanswm yr allyriadau ac nid yw’n cyfrif atafaelu carbon (na dal carbon – technolegol na naturiol).

[26] Nid yw’r ffigurau y pen (ac unrhyw ffigurau cyfanswm a ddefnyddiwyd i roi cyd-destun iddynt) yn yr adran hon yn cynnwys y sector Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth er mwyn cyd-fynd â safonau cymharu rhwng gwledydd Banc y Byd. Mae’r ystadegau eraill (wrth edrych ar allyriadau Cymru ar eu pen eu hunain), oni nodir yn wahanol, yn cynnwys Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth.

o 43.2% yn well na gostyngiadau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (26.9%) a'r UE (32.4%).[27]

72. Mae taflwybr allyriadau tiriogaethol Cymru ers rhan olaf yr 20fed Ganrif wastad wedi bod ar i lawr er bod cyflymder y gostyngiad wedi bod yn anghyson. Ers y flwyddyn sylfaen, mae cyfanswm yr allyriadau 'net' wedi gostwng 38.4%[28], gan ddisgyn o 55.4 MtCO2e i 34.1 MtCO2e. Yn benodol, mae cyfradd y gostyngiad wedi cyflymu yn ystod y blynyddoedd diwethaf: er mai dim ond 0.3 MtCO2e oedd y gostyngiad cyfartalog blynyddol a welwyd rhwng 1990 a 2015, rhwng 2016 a 2023 mae hyn wedi cyflymu i tua 2.0 MtCO2e bob blwyddyn.

73. Ers 2020, gosodwyd targedau allyriadau mwy uchelgeisiol i adlewyrchu uchelgais gynyddol Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau tiriogaethol. Yn 2021, ymrwymodd Cymru drwy gyfraith i gyrraedd allyriadau Sero Net erbyn 2050, cynnydd sylweddol yn yr uchelgais wrth gymharu â'r targed lleihau o 80% a osodwyd yn 2016. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad manwl o dargedau interim a thargedau 2050 sydd wedi newid.

**Tabl 1: Targedau allyriadau Cymru a ddeddfwyd a gytunwyd gan Senedd Cymru**

| | Targedau allyriadau blaenorol (y cytunwyd arnynt yn 2016) | Allyriadau Sero Net erbyn 2050 (cytunwyd 2021) |
|---|---|---|
| **2020** | 27% | ~ |
| **2030** | 45% | 63% |
| **2040** | 67% | 89% |
| **2050** | (O leiaf) 80% | (O leiaf) 100% |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

74. Rhaid i'r allyriadau barhau i ddisgyn ar y gyfradd ôl-2016 er mwyn cyrraedd y targed presennol ar gyfer 2030. Bydd cyflawni gostyngiad o 63% o'i gymharu â'r llinell sylfaen (i lawr i 20.5 MtC02e) yn gofyn am ostyngiad blynyddol o tua 1.9 MtCO2e. Mae hyn yn wahanol i'r gostyngiad blynyddol o 2.2 MtCO2e a nodwyd yn llwybr cytbwys y Pwyllgor Newid Hinsawdd at Sero Net 2050 (sy'n gweld allyriadau'n disgyn i 18.9 MtCO2e) – sy'n cyfateb i ostyngiad o 66% – felly mae Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed terfynol hwn. Ar y gyfradd gostyngiad blynyddol ôl-2016 o 2.0 MtC02e, byddai allyriadau Cymru yn cyrraedd 63.9% o dan y llinell sylfaen erbyn 2030, gan ragori ar y targed statudol ond yn is na llwybr y Pwyllgor Newid Hinsawdd.


75. Mae'r gostyngiad o 38.4% mewn allyriadau a welwyd yn 2023 ers y flwyddyn sylfaen yn golygu bod Cymru wedi cyflawni bron i 58% o gyfanswm y

[27] Banc y Byd (2024). Carbon dioxide (CO2) emissions excluding LULUCF per capita (t CO2e/capita). Cronfa ddata ar-lein.
[28] Mae allyriadau net yn cyfeirio at gyfanswm yr allyriadau net ac unrhyw allyriadau sy'n cael eu hatafaelu.

gostyngiad sydd ei angen dros y cyfnod hwn i gyrraedd targed 2030. Fodd bynnag, mae hynny'n dal i olygu bod angen llawer iawn o ddatgarboneiddio er mwyn cyrraedd nod 2030.

**Ffigur 27: Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yng Nghymru, yn ôl sector**

Allyriadau nwyon tŷ gwydr (MtCO2e) o 1990 i 2023





*Sylwch: Nid yw data allyriadau yn cael ei ddarparu yn set data'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol ar gyfer y blynyddoedd 1991-1994 na 1996-1997*
*Ffynhonnell: Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol*

## Sectorau

76. Yn 2023, diwydiant (40%) a thrafnidiaeth (17%) oedd y ddau gyfrannwr mwyaf at allyriadau CO2 Cymru fesul sector. Er bod allyriadau trafnidiaeth gwirioneddol wedi gostwng, maent yn cynrychioli cyfran gynyddol o gyfanswm allyriadau Cymru, sy'n bennaf oherwydd y gostyngiad cymharol gyflymach mewn allyriadau yn y sector pŵer. Mae pŵer (14%) yn dal yn ffynhonnell amlwg o allyriadau o flaen adeiladau (11%) a gwastraff (3%). Mae'r sector Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth yn gweithredu fel dalfa garbon sy'n dal net -0.8 MtCO2e (ac felly mae wedi cael ei eithrio wrth gyfrifo cyfrannau sector).

**Ffigur 28: Cyfran o gyfanswm yr Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 'gros' yng Nghymru, yn ôl sector**
2023




*Ffynhonnell: Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol*

77. Mae'r targedau sectoraidd y cyfeirir atynt yn yr adrannau canlynol yn seiliedig ar gyfrifiadau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd. Roedd eu 'dadansoddiad llwybr cytbwys' yn gosod eu barn ar y gostyngiadau angenrheidiol mewn allyriadau gan bob sector er mwyn cyrraedd targedau allyriadau ar draws yr economi. Mae'r llwybr cytbwys yn ystyried y gwahaniaethau sectoraidd mewn potensial datgarboneiddio, o ystyried y technolegau sydd ar gael a'r dichonoldeb economaidd, i sicrhau bod y gostyngiadau a gynigir yn ymarferol ac yn ystyried yr effeithiau ar randdeiliaid.

78. Mae llwybr cytbwys y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn wahanol i dargedau Llywodraeth Cymru. Mae'r ail, a osodwyd fel targedau statudol yn 2021, yn rhwymo mewn cyfraith, tra bo ffigurau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn gynghorol (er bod targedau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd).

*Diwydiant*


79. Y sector diwydiant[29] oedd y ffynhonnell fwyaf o allyriadau cenedlaethol yng Nghymru yn 2023. Mae'r sector wedi cofnodi'r gostyngiadau mwyaf ers y flwyddyn llinell sylfaen mewn termau absoliwt a chymharol. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd hwn, mae angen gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau er mwyn cyrraedd targed 2030 y sector ei hun. O ystyried ei gyfran sylweddol

[29] Mae'r sector diwydiant, fel y mae'n cael ei ddisgrifio yma, yn cael ei ddiffinio fel y sectorau 'Diwydiant' a 'Cyflenwi Tanwydd' yn y drefn honno.

yn y llwybr cytbwys, mae gostyngiadau pellach mewn diwydiant yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau allyriadau cyffredinol.

**Ffigur 29: Cyfraniad allyriadau'r sector diwydiant yng Nghymru**

Allyriadau nwyon tŷ gwydr (MtCO2e) o 1990 i 2023




*Sylwch: Nid yw data allyriadau yn cael ei ddarparu yn set data'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol ar gyfer y blynyddoedd 1991-1994 na 1996-1997*

*Ffynhonnell: Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol*

80. Yn 2023, cyfanswm allyriadau diwydiant oedd 13.9 MtC02e, sef 40% o gyfanswm Cymru – mwy na dwbl allyriadau unrhyw sector arall. Ar y lefel hon, roedd allyriadau 35.3% yn is na'r llinell sylfaen, yn bennaf oherwydd y gostyngiadau a welwyd rhwng 1999 a 2002. Ers hynny, mae'r cynnydd wedi arafu o'r hyn sydd ar gael ond disgwylir i allyriadau ostwng yn sydyn pan gyhoeddir data 2024, oherwydd dylai'r ffigurau adlewyrchu cau'r ddwy ffwrnais chwyth ym Mhort Talbot – er mwyn gosod ffwrnais arc drydan ar y safle. Yn 2023, Gwaith Dur Tata ym Mhort Talbot oedd yr un allyrrydd mwyaf yng Nghymru o fewn Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gyda chyfanswm ei allyriadau yn 5.7MtCO2e.[30]

81. Bydd angen gostyngiad cymharol fawr mewn allyriadau er mwyn i'r sector diwydiant gyrraedd ei darged ar gyfer 2030. Bydd gostyngiad o 66.6% yn golygu bod y sector yn cyrraedd ei darged 4.6MtCO2e – dim ond y sectorau pŵer a gwastraff fydd yn rhagori ar y gostyngiad (er, gan fod lefelau allyriadau diwydiant yn uwch, bydd i ba raddau y mae'n llwyddo i gyflawni ei gyfraniad – hy a yw'n cyflawni gostyngiad o'r fath ai peidio, a faint – yn cael mwy o effaith ar y cyfanswm cyffredinol).

[30] Llywodraeth y DU (2025). UK ETS Public Reports: Compliance Report – Emissions and Surrenders.

82. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn rhagweld er mwyn i’r sector gyflawni'r rhan fwyaf o'r gostyngiadau mewn allyriadau hyd at ddechrau'r 2030au y bydd angen iddo fabwysiadu rhagor ar drydaneiddio i ddisodli'r prosesau diwydiannol presennol (gan gynnwys defnyddio hylosgi i wresogi). Byddai hyn yn golygu cynyddu’r gyfran o anghenion ynni diwydiannol sy’n cael eu diwallu gan drydan o 13% yn 2022 i 30% yn 2033.[31] Fel y soniwyd uchod, bydd rhan fawr o'r galw cynyddol hwn am drydan yn digwydd ar ôl dechrau gweithredu’r ffwrnais arc drydan yng ngwaith dur Port Talbot.


*Trafnidiaeth*

83. Trafnidiaeth[32] yw'r ail gyfrannwr mwyaf at allyriadau cyffredinol, ac roedd yn cynrychioli 17% o allyriadau Cymru yn 2023. Amcangyfrifwyd bod allyriadau o'r sector trafnidiaeth yn 6MtCO2e yn 2023 – 14.6% o dan ei linell sylfaen. Er y bu gostyngiad i 5.4Mt$CO_2$e yn 2020 (10.4% o dan darged y flwyddyn honno sef 6.0MtC02e), mae’n debyg bod hyn wedi digwydd i raddau helaeth oherwydd cyfyngiadau’r pandemig a oedd ar waith yn ystod y cyfnod hwn, mae’r lefelau wedi codi’n ôl i raddau. Serch hynny, mae allyriadau ar ôl 2020 wedi aros yn is na chyfartaledd 1990-2019 sef 7MtCO2e. Petai llwybr cytbwys y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cael ei ddilyn, byddai gostyngiadau allyriadau gan y sector trafnidiaeth yn cynrychioli 7% o’r gostyngiad ar draws yr economi a gyflawnir rhwng y flwyddyn sylfaen a 2030.

[31] Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (2025). Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru: Cyngor i Lywodraeth Cymru.
[32] Mae’r sector trafnidiaeth, fel y mae’n cael ei ddisgrifio yma, yn cael ei ddiffinio fel sectorau ‘Trafnidiaeth Ddomestig’ a ‘Hedfan a Morgludiant Rhyngwladol’ TESS yn y drefn honno.

**Ffigur 30: Cyfraniad allyriadau'r sector trafnidiaeth yng Nghymru**

Allyriadau nwyon tŷ gwydr (MtCO2e) o 1990 i 2023




*Sylwch: Nid yw data allyriadau yn cael ei ddarparu yn set data'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol ar gyfer y blynyddoedd 1991-1994 na 1996-1997*
*Ffynhonnell: Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol*

84. Er mwyn cyrraedd targed 2030 llwybr cytbwys y Pwyllgor Newid Hinsawdd, bydd angen i allyriadau ddisgyn 21.3% o lefelau 2023 – gostyngiad cymharol fach o'i gymharu â sectorau eraill o faint tebyg. Fodd bynnag, yn hanesyddol mae'r cynnydd yn y sector hwn wedi bod yn arafach, gyda 57% o'r gostyngiad gofynnol o'r llinell sylfaen eto i'w gyflawni. Hyd yma, dim ond 5% o gyfanswm y gostyngiadau mewn allyriadau y mae trafnidiaeth wedi'u cyfrannu, sy'n is na'r 7% a ragamcanwyd ar gyfer 2030 yn llwybr cytbwys y Pwyllgor Newid Hinsawdd.

85. Yn yr un modd â diwydiant, bydd y rhan fwyaf o'r gostyngiad sydd ei angen yn y sector trafnidiaeth er mwyn i Gymru gyrraedd ei thargedau hinsawdd yn golygu trydaneiddio mwy o stoc trafnidiaeth arwyneb Cymru dros amser. Yn ôl y Pwyllgor Newid Hinsawdd, bydd angen i'r rhan fwyaf (89%) o werthiannau ceir newydd yn 2030 fod yn gerbydau trydan yn hytrach na'r llai nag un o bob deg gwerthiant roeddent yn ei gynrychioli yn 2023.[33] Bydd galluogi'r newid hwn yn golygu sicrhau bod y seilwaith a'r ddeddfwriaeth mewn lle i wneud cerbydau trydan yn hyfyw ac yn ddeniadol i ddefnyddwyr – er enghraifft, drwy barhau i gyflwyno gwefrwyr cyflym ar hyd a lled y wlad.[34]

[33] Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (2025). [Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru: Cyngor i Lywodraeth Cymru].
[34] Llywodraeth Cymru (2021). [Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru].


*Adeiladau*

86. Yn 2023, roedd allyriadau adeiladau[35] yn 3.7MtCO2e, sy'n cynrychioli 11% o gyfanswm yr allyriadau. Mae'r sector wedi lleihau allyriadau 42.9% ers y flwyddyn sylfaen, gyda gostyngiadau nodedig yn 2011 ac yn 2022, ond bach fu'r newidiadau mewn lefelau fel arall. Mae tuedd ar i lawr wedi ailymddangos ers 2021.

87. Er bod allyriadau adeiladau'n cynrychioli dros 10% o'r allyriadau cyffredinol yn 2023, mae'r sector bellach yn cynrychioli cyfran lai o gyfanswm yr allyriadau dros y cyfnodau diwethaf gan fod allyriadau wedi gostwng yn gyflymach nag ar gyfer yr economi gyfan. Er bod y sector wedi methu ei darged 2020, mae'n gymharol nes at gyrraedd ei darged 2030 na'r rhan fwyaf o sectorau eraill (gweler Ffigur 31: Cyfraniad allyriadau'r sector adeiladau yng Nghymru).

**Ffigur 31: Cyfraniad allyriadau'r sector adeiladau yng Nghymru**

Allyriadau nwyon tŷ gwydr (MtCO2e) o 1990 i 2023




*Sylwch: Nid yw data allyriadau yn cael ei ddarparu yn set data'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol ar gyfer y blynyddoedd 1991-1994 na 1996-1997*
*Ffynhonnell: Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol*

88. Dylai'r rhan fwyaf o'r gostyngiadau mewn allyriadau gan y sector adeiladu (preswyl a dibreswyl) gael eu cyflawni'n bennaf drwy gyfuniad o fesurau effeithlonrwydd ynni a gosod systemau gwresogi carbon isel – sef pympiau gwres.[36] Bydd yn bwysig sicrhau bod systemau gwresogi carbon isel yn economaidd hyfyw ac yn hygyrch i aelwydydd ac i gwmnïau fel ei gilydd, yn

[35] Defnyddiodd y sector Adeiladau, fel y cafodd ei ddisgrifio yma, y sector TESS 'Adeiladau a Defnyddio Cynnyrch'.
[36] Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (2025). [Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru: Cyngor i Lywodraeth Cymru](#).

enwedig o ystyried y costau cyfalaf uchel ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â'r dechnoleg (a all fod yn rhwystr i fabwysiadu).

# Seilwaith lleol yn gyrru economïau rhanbarthol

**Cymunedau mwy cysylltiedig**

89. Mae gwella iechyd a llesiant cymunedau yng Nghymru yn gallu cael effeithiau amrywiol ar draws nifer o feysydd polisi. Mae'n golygu bod unigolion yn gallu byw bywydau hirach a chael iechyd da am fwy o flynyddoedd.

90. Mae hyn hefyd yn gallu arwain at nifer o fanteision economaidd. Er enghraifft, mae lefelau iechyd gwell ar draws y boblogaeth yn golygu bod rhagor o bobl yn gallu gweithio. Gan mai anabledd neu salwch tymor hir yw un o'r prif resymau mwyaf cyffredin dros anweithgarwch economaidd, mae'n gwneud synnwyr y gallai gwella iechyd y boblogaeth olygu nad ydynt mor gyffredin. Mae hefyd yn golygu bod y rhai sy'n gweithio, ond sy'n dioddef o afiechyd, yn gallu gweithio rhagor o oriau os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfanswm allbwn economaidd Cymru ac yn helpu i leihau anghydraddoldebau incwm.

91. Gallai hefyd leihau'r baich ar wasanaethau cyhoeddus fel y GIG. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i boblogaeth Cymru heneiddio. Byddai hyn yn golygu y gellid buddsoddi mwy mewn rhannau eraill o'r economi.


## Cymunedau mwy cysylltiedig

92. Mae sicrhau bod cymunedau gwledig yn gallu cael gafael ar wasanaethau lleol hanfodol – fel gofal iechyd, addysg, trafnidiaeth a seilwaith digidol – yn hanfodol i degwch iechyd ac i gynhwysiant cymdeithasol. Heb wasanaethau o'r fath, mae hi'n gallu bod yn anodd iawn i drigolion gwledig gael gafael ar gyflogaeth, dysgu gydol oes, a chymorth meddygol amserol, sy'n gallu effeithio ar lesiant corfforol, meddyliol ac economaidd cymunedau o'r fath.

93. Mae map Parth Mynediad i Wasanaethau Cymru o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru isod yn dangos faint o ardal ddaearyddol Cymru sydd â 10% o'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf difreintiedig – yr ardaloedd glas tywyll. Mae hyn yn dangos faint o broblem yw cael gafael ar wasanaethau i rannau gwledig o Gymru lle mae dwysedd y boblogaeth yn is ac, felly, mae'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn ardaloedd mwy.

**Ffigur 32: Parth Mynediad i Wasanaethau**

Cymru




*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru*


## Teithio llesol

94. Mae teithio llesol, fel cerdded a beicio, yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o wella iechyd corfforol a meddyliol. Drwy wneud symud yn rhan o arferion dyddiol – boed hynny'n gymudo i'r gwaith, teithio i'r ysgol, neu fynd ar neges – mae unigolion yn cynyddu eu lefelau gweithgarwch corfforol, sy'n lleihau eu risg o glefydau cronig ac sy'n cefnogi iechyd cardiofasgwlaidd.  Ar ben hynny, mae dewis teithio llesol yn lleihau'r allyriadau sy'n deillio o'r sector trafnidiaeth ac yn cyfrannu at aer glanach ac mae'n helpu cynaliadwyedd amgylcheddol.

95. Mae data o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod tua 10% o'r boblogaeth yn defnyddio beic at ddibenion teithio llesol o leiaf unwaith neu ddwywaith y mis, sydd wedi aros yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, er bod cyfran yr ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn cerdded at ddibenion teithio llesol yn uwch o lawer, mae'n ymddangos y bu gostyngiad ers dechrau'r pandemig ac nid yw'r lefel wedi ailgodi'n llwyr, gyda chyfran lai o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn cerdded bob dydd i fynd i rywle. Roedd cynnydd yng nghyfran y bobl a oedd yn dweud nad ydynt byth yn gwneud hynny, neu lai nag unwaith neu ddwy y mis yn 2020-21. Er bod y gyfran sy'n datgan hynny wedi disgyn bob blwyddyn ers hynny, nid yw wedi cyrraedd y lefel cyn y pandemig.

**Ffigur 33: Pa mor aml y defnyddiwyd beic i fynd i rywle**


Cymru




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

***Ffigur 34*: Pa mor aml y cerddwyd (10+ munud) i fynd i rywle**

Cymru





*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

## Iechyd a Lles

96. Mae gwella llesiant corfforol ledled Cymru yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd a meithrin poblogaeth sy'n fwy egnïol a gwydn. Drwy hyrwyddo gofal iechyd hygyrch, deiet maethlon, a chyfleoedd i wneud gweithgarwch corfforol, rydym yn gosod y sylfeini ar gyfer cenedlaethau iachach i ddod.

97. Mae data o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod tua thri chwarter yr ymatebwyr dros y blynyddoedd diwethaf wedi dweud bod eu hiechyd naill ai'n 'dda', neu'n 'dda iawn', gydag ychydig o dan 10% yn dweud ei fod yn 'wael' neu'n 'wael iawn'.


**Ffigur 35: Iechyd Cyffredinol – 'Sut mae eich iechyd yn gyffredinol?'**
Cymru




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

98. Mae ffigurau o'r datganiad 'aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog' yn dangos bod aelwydydd â rhywun anabl yn y teulu yn llawer mwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na'r rhai heb rywun anabl yn y teulu. Er ei bod yn ymddangos bod tuedd ar i lawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng nghyfran yr aelwydydd sydd â rhywun anabl yn y teulu sydd mewn tlodi incwm cymharol, mae dal gwahaniaeth clir rhyngddynt ac aelwydydd heb rywun anabl yn y teulu. Mae hyn yn rhoi syniad o effaith ariannol bosibl anabledd.

**Ffigur 36: Oedolion o oedran gweithio yng Nghymru mewn tlodi incwm cymharol yn ôl a oes anabledd yn y teulu (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb)**
Cymru





*Ffynhonnell: Aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog*

99. Mae cydnabod a mynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl ar draws demograffeg yn hanfodol er mwyn creu cymdeithas sy'n gynhyrchiol ac yn gydlynol. Mae cefnogi llesiant meddyliol unigolion yn gwneud hi'n haws iddynt gyrraedd eu llawn botensial a chymryd rhan lawnach mewn bywyd cymdeithasol ac economaidd.

100. Mae ffigurau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod gan y rhai sydd mewn amddifadedd materol lai o synnwyr bod y pethau maen nhw'n eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil na'r rhai nad ydynt mewn amddifadedd materol. Gallai hyn awgrymu bod amddifadedd materol yn gysylltiedig ag iechyd meddwl gwaeth.

**Ffigur 37: Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y pethau rydych chi'n eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil?**

Cymru




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*